# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Hydref 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynnydd a wnaethpwyd tuag at gwblhau'r ffordd gyswllt o Bontllanfraith i Ystrad Mynach (ffordd osgoi Maesycwmer) (WAQ44490)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Vale TV. (WAQ44487)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ddadansoddiad a wnaeth y Gweinidog o'r sgiliau a'r buddiannau a ddysgir gan ddisgyblion wrth gymryd rhan yn Media 4 Schools a Vale TV. (WAQ44488)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Media 4 Schools. (WAQ44489)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y meini prawf a ddefnyddir ganddo wrth ddewis galw cais cynllunio i mewn. (WAQ44493)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba ganllawiau y mae'n eu cynnig i awdurdodau lleol ynghylch sut y gallai cost amddiffyn apêl yn erbyn gwrthod cais cynllunio effeithio ar y ffordd yr ystyrir y cais hwnnw. (WAQ44494)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Faint a wariwyd ar sefydlu "rhwystrau tir" neu "Rwystrau Ffordd Gwrthderfysgwyr Diogelwch-Uchel a all Wrthsefyll Gwrthdrawiad" wrth adeiladu siambr newydd y Cynulliad. (WAQ44483)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa gamau diogelwch a gymerwyd i warchod Siambr newydd y Cynulliad rhag ymosodiadau gan derfysgwyr a beth yw cost y camau hynny.

(WAQ44484)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth fu cost flynyddol Swyddfa Cymru a dynnwyd o’r grant y pleidleisiwyd drosto gan Senedd y DU ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pob blwyddyn y bu’r Cynulliad Cenedlaethol mewn bodolaeth. (WAQ44496)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gamau a gymerir i leihau’r prinder gweithwyr adsefydlu ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall. (WAQ44482)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer cyllido gwasanaethau adsefydlu i bobl ddall a rhannol ddall yn y dyfodol. (WAQ44485)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod y gwasanaethau adsefydlu a ddarperir ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall o safon gyson uchel ledled Cymru. (WAQ44486)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gost fesul gwely mewn Ysbyty Cymuned a sut y mae hyn yn cymharu â chost gyfartalog gwely safonol mewn Ysbyty Cyffredinol Rhanbarthol yng Nghymru. (WAQ44491)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Yn dilyn eich ateb i WAQ44248, a wnaiff y Gweinidog roi manylion costau gweinyddu awdurdodau iechyd ym mlwyddyn olaf eu bodolaeth. (WAQ44492)

**Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba gefnogaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i wasanaethau canser y fron yng Nghymru. (WAQ44495)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Yng nghyswllt cynlluniau gwrthdlodi Llywodraeth Cynulliad Cymru, a yw’r Gweinidog yn cadw cofnodion am y canran o ddinasyddion Cymru sy’n byw ar: a) llai na £5000 y flwyddyn; b) llai na £10000 y flwyddyn; c) llai na £20000 y flwyddyn; d) llai na £50000 y flwyddyn a e) mwy na £50000 y flwyddyn, ac os felly, a wnaiff gyhoeddi’r ffigurau hynny. (WAQ44497)